# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Chwefror 2021

Amser: 09.30 - 10.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11195

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Lucy Valsamidis (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod - yn unol â Rheol Sefydlog 34.19 - wedi penderfynu bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o gyfarfod y Pwyllgor, er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)730 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 2.2 SL(5)733 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)737 – Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(5)731 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(5)732 – Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(5)738 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(5)698 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(5)721 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2021

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 4.2 SL(5)724 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Is-ddeddfwriaeth nad yw’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

### 5.1 SL(5)734 – Cod Ymarfer a Chanllawiau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Trafododd y Pwyllgor y Cod Ymarfer ac roedd yn fodlon arno.

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 6.1 WS-30C(5)216 – Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygiadau Amrywiol sy'n Ymwneud â Chyfansoddiad, Gwybodaeth a Labelu Bwyd a Gwin) 2021

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Craffu ar reoliadau Llywodraeth Cymru a chydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus - Rheol Sefydlog 21.3C(iv)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac, yn breifat, cytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf o ran cyhoeddi'r dogfennau asesu.

### 7.2 Llythyr oddi wrth Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'i hymateb i argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â'r Bil.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Amgylchedd - trafod yr adroddiad drafft

Ystyriodd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, a chytunodd i gwblhau'r adroddiad y tu allan i'r Pwyllgor.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Cam-drin Domestig - trafod y materion allweddol

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cam-drin Domestig a chytunodd i ystyried ei adroddiad drafft yn y cyfarfod nesaf.

## 11 Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru – trafod y materion allweddol

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol mewn perthynas â'i ymchwiliad i Wneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru. Nododd y Pwyllgor y byddai'n cynnal sesiynau tystiolaeth gyda'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, a chyda Chomisiwn y Gyfraith yn ei gyfarfod nesaf.

## 12 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig – papur briffio

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Bil Marchnad Fewnol y DU.

## 13 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – y wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd.